POLISI DIOGELWCH
SYSTEMAU TGCH
MEWN YSGOLION CYNRADD

DIOGELWCH SYSTEMAU TGCH MEWN YSGOLION

Dros y ddegawd olaf, mae'r defnydd o TGCh mewn ysgolion cynradd wedi datblygu i chwarae rhan allweddol yng nghyflwyno'r cwricwlwm ac ar gyfer rheoli a gweinyddu'r ysgol, ac wrth i ysgolion ddarparu mwy a mwy o fynediad at wasanaethau TGCh, mae'n rhaid i ragofalon a diogelwch y systemau fod yn ystyriaeth amlwg.

Mae diogelu systemau ysgolion rhag ymosodiadau allanol yn ofyn na ellir ei anwybyddu. Cedwir **data sensitif** ar rwydweithiau ysgolion, ac mae cyfrifoldeb cyfreithiol i gyflwyno a gweithredu mesurau sy'n gwarchod y data yma. Hefyd, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod ganddynt bolisïau ac arferion da ar waith i **reoli mynediad** at ffeiliau a ffolderi gwaith, adnoddau dysgu, manylion personnol, gwybodaeth ariannol a chyllidol, dogfennau rheolaethol ac ati. Ochr-yn-ochr â hyn, fe ddylai ysgolion sicrhau bod ganddynt weithdrefnau addas yn eu lle i warchod y **caledwedd a'r systemau** rhag ymosodiadau allanol ac ymdrechion i'w hacio.

I'r perwyl hwn, dylai ysgolion lunio a mabwysiadu **Polisi Diogelwch Systemau TGCh** sy'n cyfeirio at yr arferion a'r gweithdrefnau y dylid eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r risgiau i'w systemau a'u data. Mae enghraifft o bolisi wedi'i atodi, er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â **Diogelwch Systemau TGCh** yn yr ysgol. Yn ogystal, atodir engraifft o **Bolisi ar Reolaeth Cyfrineiriau,** sy'n gosod gwaelodlin ar gyfer creu a rheoli y defnydd o gyfrineiriau o fewn ysgol.

CRYNODEB O'R PRIF ARGYMHELLION / CAMAU GWEITHREDU

1) Mabwysiadu **Polisi Diogelwch Systemau TGCh** ar gyfer yr ysgol
2) Mabwysiadu **Polisi Rheolaeth Cyfrineiriau** ar gyfer yr ysgol.
3) Dynodi aelod o'r ysgol i fod yn **Rheolwr Systemau TGCh**, gyda chyfrifoldeb penodol dros bob mater sy'n ymwneud â TGCh yn yr ysgol.
4) Dirprwyo cyfrifoldeb am **ddiogelwch y fileserver a chyfarpar rhwydweithiol** i gwmni CYNNAL (neu asianataeth gefnogol arall.)
5) Sicrhau bod pob aelod o staff yn mewngofnodi i'r systemau gydag **enw defnyddiwr** unigryw, personol.
6) Sicrhau bod staff yn defnyddio **cyfrineiriau** addas wrth fewngofnodi.
7) Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r **angen i sicrhau a gwarchod diogelwch** dogfennau a data cyfrinachol.
8) Mabwysiadu rhagofalon sy'n diogelu **rhwydwaith di-wifr** yr ysgol.
9) Sicrhau bod **gwarchodaeth atal firws** a meddalwedd maleisus, diweddariadau Windows a diweddariadau allweddol eraill yn digwydd yn awtomatig.
10) Sicrhau bod pob dyfais a ddefnyddir i gario data o natur sensitif oddi ar safle'r ysgol wedi'u **hamgryptio** ac wedi'u gwarchod gan gyfrinair.
11) Mabwysiadu trefniadau addas ar gyfer gwneud **copi-wrth-gefn** o data yr ysgol.
12) Sicrhau bod rhagofalon a gweithdrefnau addas yn eu lle i reoli mynediad a diogelu cyfrinachedd **data SIMS** yr ysgol.

POLISI DIOGELWCH SYSTEMAU TGCH YSGOL

(a) CYFRIFOLDEBAU AM FATERION TGCH

(i) Bydd yr ysgol yn dynodi aelod o'r staff i fod â chyfrifoldeb cyffredinol dros bob mater sy'n ymwneud â TGCh yn yr ysgol (Rheolwr Systemau TGCh).

(ii) CYNNAL fydd yn gyfrifol am greu, cadw a sicrhau cyfrinachedd cyfrinair y fileserver ac unrhyw offer rhwydweithiol eraill (dyfeisiadau copi-wrth-gefn, offer di-wifr, ayyb) sydd yn yr ysgol. Bydd y cyfrineiriau yn cael eu cadw'n ddiogel gan reolwyr CYNNAL, a hwy fydd yn gyfrifol am sicrhau eu diogelwch. Ni ddatgelir y cyfrineiriau yma i unrhyw rai, onibai bod Pennaeth yr ysgol yn awdurdodi hynny.

(b) MEWNGOFNODI A HAWLIAU AR Y SYSTEMAU

(i) Bydd y rhai sydd yn ddefnyddwyr ar fileserver/rwydwaith yr ysgol yn derbyn y lefelau angenrheidiol o 'hawliau/breintiau' i'w galluogi i gyflawni eu tasgau a'u cyfrifoldebau yn unig. Bydd y disgyblion yn cael hawliau sylfaenol ar y rhwydwaith ac ar y cyfrifiaduron, a bydd athrawon yn cael hawliau 'uwch'. Bydd technegydd yr ysgol (CYNNAL) yn derbyn breintiau Gweinyddwr (Administrator) ar y server.



(ii) Bydd pob aelod o staff yr ysgol yn mewngofnodi i'r rhwydwaith gan ddefnyddio enw defnyddiwr sydd yn unigol, yn bersonnol ac sy'n caniatau eraill i'w adnabod. Ni chaniateir enwau defnyddiwr cyffredinol, anhysbys neu generig, - megis staff, athro, ysgol .....

(iii) Caniateir i ddisgyblion fewngofnodi gydag enwau generig (megis ysgol neu eu blwyddyn ysgol).

(iv) Mae'n bosibl y bydd disgyblion ac athrawon yn rhannu yr un cyfrifiaduron. Yn yr achosion yma, bydd defnyddwyr gwahanol yn cael eu creu ar y peiriannau, a bydd yr athrawon a'r disgyblion yn mewn-gofnodi i'r cyfrif priodol gyda'r manylion perthnasol.

(v) Ni chaniateir i ddisgyblion gael mynediad at gyfrifon y staff.

(c) RHEOLAETH CYFRINEIRIAU

(i) Bydd yr ysgol yn mabwysiadu **Polisi** mewn perthynas â diogelwch cyfrineiriau. Bydd y Polisi yn manylu ar gyfansoddiad, cylch-bywyd a'r hawl i ail-ddefnyddio cyfrineiriau, - i adlewyrchu cyfrinachedd a natur y system / data y bwriedir ei ddiogelu.

(ii) Ni fydd yr ysgol yn cadw cofnod 'canolog' o gyfrineiriau defnyddwyr.

(iii) Bydd y staff yn derbyn cyfrifoldeb am gadw eu cyfrinair yn ddiogel, ac adrodd yn ôl i'r Rheolwr Systemau TGCh neu Dechnegydd CYNNAL am achosion lle mae integriti'r cyfrinair wedi'i gyfaddawdu o bosibl.

(iv) Ar gyfrifiaduron y staff gweinyddol ac athrawon, bydd arbedwr sgrin sy'n gofyn am y cyfrinair os nad yw'r bysellfwrdd wedi cael ei ddefnyddio am 20 munud.

(v) Pan fydd staff yn defnyddio dyfeisiadau cludadwy (megis gliniaduron, co' bach....) i gario/trosglwyddo data sensitif oddiar dir yr ysgol, bydd y dyfeisiadau hyn wedi'u gwarchod gan system amgryptio briodol, sy'n gofyn am gyfrinair er mwyn cael mynediad at y data.

(ch) MYNEDIAD O BELL I SYSTEMAU TGCH

(i) Mae'n bosibl y bydd asiantaethau cefnogi allanol (e.e. CYNNAL) eisiau mynediad i systemau'r ysgol o bell i ddatrys problemau, a bydd rhaid gwneud hynny drwy gysylltiad sy'n hollol ddiogel.

(ii) Ni fydd unrhyw feddalwedd Mynediad o Bell gan drydydd parti'n cael ei osod ar system yr ysgol heb drafod gyda'r Rheolwr Systemau TGCh neu Dechnegydd CYNNAL .

(iii) Bydd defnyddwyr o bell yn mewngofnodi gan ddefnyddio enwau defnyddiwr hawdd eu hadnabod, ac yn cael y caniatâd lleiaf sydd ei angen er mwyn cyflawni'r tasgau angenrheidiol.

(d) RHWYDWEITHIAU DI-WIFR

(i) Os yw'r ysgol yn defnyddio rhwydwaith di-wifr, sicrheir diogelwch y rhwydwaith drwy ddefnyddio amgryptiad WPA2, a defnyddio diogelwch addas ar gyfer yr allwedd amgrymtio, yn unol â'r Polisi Rheolaeth Cyfrineiriau.

(ii) Mae'n rhaid i bob pwynt mynediad (*access point*) allu cynnig lefel WPA2 o amgryptio. Bydd unrhyw ddyfeisiadau nad ydynt yn gallu cefnogi o leiaf WPA2 yn cael eu datgomisiynu a'u hadnewyddu.

(dd) GWARCHOD RHAG FIRYSAU / DIOGELWCH Y SYSTEM WEITHREDU

(i) Bydd fileserver a phob cyfrifiadur unigol yn yr ysgol yn cael eu gwarchod gan raglen atal firws briodol, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd ac awtomatig.

(ii) Pan ddarganfyddir firws ar system yn yr ysgol, dylid hysbysu'r Rheolwr Systemau TGCh/Technegydd CYNNAL ar unwaith.

(iii) Os cyflwynir dyfeisiadau allanol (e.e. co' bach USB, disgiau caled allanol) i system yr ysgol, gwneir hynny ar gyfrifiadur sydd yn rhedeg rhaglen atal firws, ac sy'n gallu sganio'r ddyfais **cyn** copïo unrhyw ddata.

(iv) Ni fydd yr ysgol yn caniatáu defnyddio cyfrifiaduron/dyfeisiadau personnol ar rwydwaith yr ysgol, oni bai fod y cyfrifiaduron/dyfeisiadau yn rhedeg system canfod/dileu firws ddigonol, sy'n gallu cadw at weithdrefnau gwrth-firws yr ysgol.

(v) Bydd Wal Dân Windows yn weithredol ar bob cyfrifiadur ar rwydwaith yr ysgol. Yn yr un modd, bydd Diweddariadau Windows a diweddariadau allweddol eraill yn awtomatig lle bo modd.

(vi) Os nad yw cyfrifiadur yn ddigon cyfoes i gynnig y lefelau priodol o ragofalon, fe'i dad-gysylltir oddiar rwydwaith yr ysgol.

(e) GWEITHDREFNAU COPI-WRTH-GEFN

(i) Os nad oes gan yr ysgol fileserver, bydd unrhyw waith/data yn gael ei storio yn My Documents ar gyfer pob defnyddiwr ar y cyfrifiaduron.

(ii) Bydd yr ysgol yn prynu gwasanaeth copi-wrth-gefn gan gwmniau allanol, neu gyflwyno trefn sy'n copio'r data i ddyfeisiadau storio cludadwy (megis disgiau USB, disgiau NAS ayyb).

(iii) Os yw'r ysgol wedi buddsoddi mewn fileserver, bydd y data i gyd yn cael eu storio yn y ffolderi perthnasol ar y server, a'r rhain yn cael eu copïo i ddyfais storio addas, yn unol â'r tabl isod.

(iv) Os yn bosibl, lleolir y ddyfais copi wrth gefn (NAS) mewn lleoliad sydd wedi'i gloi, ac mor bell â phosibl o leoliad y fileserver.

(v) Dylid diogelu cynnwys y dyfeisiadau yma drwy gyfrinair addas.

Data	*Amledd y copi wrth gefn*	*Math o gopi wrth gefn*	*Math o Gyfrwng*	*Nifer y dyfeisiadau*	*Lleoliad ffisegol y ddyfais*	*Cyfrifoldeb*
Data SIMS/FMS & ebyst staff	dyddiol	llawn	???	??	Cyngor	Cyngor Sir
Dogfennau gweinyddol	dyddiol	llawn	NAS ysgol	1	Ysgol	Cynnal
Dogfennau disgyblion	dyddiol	llawn	NAS ysgol	1	Ysgol	Cynnal
Dogfennau athrawon	dyddiol	llawn	NAS ysgol	1	Ysgol	Cynnal

(f) DATA SYSTEMAU GWYBODAETH RHEOLI A SIMS.NET

(i) Bydd rhagofalon addas yn cael eu gosod i reoli a chyfyngu ar fynediad at y system SIMS a Microsoft Outlook o gyfrifiaduron yr ysgol. Bydd CYNNAL yn cydweithio gyda'r Cyngor Sir i gyflwyno a gweithredu'r rhagofalon yma.

(ii) Bydd mynediad gan staff i ddata SIMS (drwy gyfrwng SIMS.net) ac ebyst yn gofyn am enw defnyddiwr a chyfrinair, a bydd polisi diogelwch cyfrinair yr ysgol yn berthnasol.

(iii) Mae'n rhaid i'r manylion adnabod hyn fod yn wahanol i'r manylion a ddefnyddir gan yr unigolyn i fewngofnodi i rwydwaith yr ysgol / Windows.

(iv) Bydd cyfrifiaduron a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at SIMS / ebost yn rhedeg arbedwr sgrin wedi'i ddiogelu gan gyfrinair, a fydd yn dod yn weithredol os nad yw'r bysellfwrdd wedi cael ei ddefnyddio am 20 munud.

(v) Ni ddylai disgyblion ddefnyddio cyfrifiaduron sy'n cael mynediad at y system SIMS / ebost athrawon.

(vi) Bydd y staff dysgu'n cael eu neilltuo i 'grwpiau' perthnasol oddi mewn i SIMS.net, er mwyn cyfyngu ar eu mynediad i'r modiwlau hynny maent eu hangen i gyflawni eu tasgau a'u cyfrifoldebau.

(vii) Bydd disgwyl i ddefnyddwyr allgofnodi o SIMS.net unwaith maent wedi cwblhau'r tasgau angenrheidiol (e.e. ar ôl cofnodi presenoldeb ar ddechrau sesiwn bore neu brynhawn.)

(viii) Ni ddylid arddangos sgrin SIMS.net ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

(g) RHAGLENNI MEDDALWEDD

(i) Bydd yr holl feddalwedd a ddefnyddir ar system yr ysgol wedi'i drwyddedu'n briodol a chedwir cofnod o'r trwyddedau gan y Rheolwr Systemau TGCh, gyda thystysgrifau i'w hategu os oes rhai wedi'u darparu.

(ii) Cedwir yr holl ddisgiau gwreiddiol/meistr yn ddiogel, o dan oruchwyliaeth Rheolwr y Systemau TGCh.

(iii) Wrth osod meddalwedd newydd, bydd Rheolwr y Systemau TGCh yn ei awdurdodi yn gyntaf, a bydd yn gwirio ei ddilysrwydd, ei gyfreithlondeb a'i gydnawsedd â system yr ysgol.

(iv) Bydd gan aelodau o staff yr hawl i osod meddalwedd ar gyfrifiaduron lleol, ond dylid ymgynghori â'r Rheolwr y Systemau TGCh o flaen llaw.

POLISI RHEOLAETH CYFRINEIRIAU YSGOLION CYNRADD

POLISI RHEOLAETH CYFRINEIRIAU YSGOLION

PWRPAS

Mae rheolaeth cyfrineiriau yn elfen allweddol o ddiogelwch data a systemau ysgolion. Mae'r cyfuniad o enw defnyddiwr a chyfrinair yn hanfodol i adnabod pwy sy'n defnyddio systemau, ac i ddilysu person fel ei fod yn gallu defnyddio'r adnoddau a'r wybodaeth sydd ar systemau ysgolion. Dim ond wrth ddilysu a rheoli mynediad yn seiliedig ar enw defnyddiwr/cyfrinair y gall ysgol sicrhau y gwneir defnydd priodol o'i systemau a'i data. O ganlyniad, dylid sicrhau bod cyfrineiriau yn cael eu creu, defnyddio a'u diogelu mewn modd priodol fel eu bod yn gallu amddiffyn systemau'r ysgol rhag camddefnydd.

Pwrpas y polisi hwn yw cynorthwyo a rhoi arweiniad i holl ddefnyddwyr systemau ysgolion sut i greu cyfrineiriau priodol, a pha gamau ddylid eu cymryd i ddiogelu eu defnydd.

CYNNWYS

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, disgybl a staff sy'n cefnogi technoleg yr ysgol – yn benodol pawb sydd gan gyfrif ar system, gyfrifiadur neu raglen/feddalwedd, ac sydd yn ofyn am gyfrinair i gael mynediad. Engreifftiau posibl yw :

- Gweithfannau cyfrifiadurol
- Offer rhwydwaith / fileservers
- Systemau ebost
- Moodle a gwefannau ar-lein
- Rhaglenni penodol (e.e. SIMS.net)

POLISI - CYFFREDINOL

- Bydd y canllawiau ar gyfer cyfansoddiad, cylch-bywyd a'r hawl i ail-ddefnyddio cyfrineiriau yn amrywio yn unol â natur y system / data y bwriedir ei ddiogelu h.y. bydd y gofynion ar gyfer mynediad gan disgyblion at y rhwydwaith gwricwlaidd yn wahanol i'r gofynion ar gyfer mynediad gan y pennaeth/athrawon at y system MIS, oherwydd sensitifrwydd y data SIMS.
- Ni ddylid creu cyfrineiriau drwy ddefnyddio termau adnabyddus, hawdd i'w hadnabod, gan gynnwys gwybodaeth bersonnol, ac ni ddylent chwaith fod yn eiriau cyffredin sydd wedi'u cynnwys mewn geiriaduron.
- Rhoddir wythnos o rybudd ymlaen llaw i ddefnyddwyr bod angen newid cyfrineiriau. O'r pwynt yna ymlaen, bydd pob mewn-gofnodiad yn annog y defnyddiwr i newid y cyfrinair, hyd y gwneir hynny.
- Bydd yr ysgol yn dechnyddio technolegau priodol i sicrhau bod defnyddwyr yn cydymffurfio gyda'r polisi.
- Rhaid i bob cyfrinair gydymffurfio gyda'r canllawiau sydd yn dilyn.

CYFANSODDIAD CYFRINEIRIAU

(i) Bydd rhaid i'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at **data rheolaethol** fod o leiaf yn wyth (8) llythyren / rhif mewn hyd. Yn ychwanegol, bydd rhaid i'r cyfrineiriau gynnwys cyfuniad o bob un o'r canlynnol :

llythrennau bach, a LLYTHRENNAU MAWR, a rhifau **(4r7Thawu)**

(ii) Bydd rhaid i'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad i **SIMS.net** ac **Outlook** fod yn unol â pholisi Rheolaeth Cyfrineiriau ar gyfer staff Cyngor Gwynedd.

(iii) Bydd rhaid i'r cyfrineiriau a ddefnyddir gan **athrawon a staff eraill** i gael mynediad at **data cwricwlaidd** fod o leiaf yn chwe (6) llythyren / rhif mewn hyd. Yn ychwanegol, bydd rhaid i'r cyfrineiriau gynnwys cyfuniad o'r canlynnol :

llythrennau bach neu LLYTHRENNAU MAWR , a rhifau **(pra5he)**

(iv) Nid oed rheidrwydd i gael cyfrineiriau i'r **disgyblion** i gael mynediad at **data cwricwlaidd**. Gall y cyfrineiriau gynnwys unrhyw un o'r canlynnol :

llythrennau bach neu LLYTHRENNAU MAWR neu rhifau **(bl4)**

(v) Bydd rhaid i'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at **offer rhwydweithiol** fod o leiaf yn wyth (8) llythyren / rhif mewn hyd. Gall y cyfrineiriau gynnwys cyfuniad o bob un o'r canlynnol

llythrennau bach, a LLYTHRENNAU MAWR, a rhifau **(3hahErUv)**

CYLCH-BYWYD CYFRINEIRIAU

(i) Bydd rhaid i'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at y data **gweinyddol / rheolaethol**, **yn yr ysgol** gael cylch-bywyd blynyddol. Felly, bydd rhaid newid y cyfrineiriau yma bob 12 mis.

(ii) Bydd cylch-bywyd cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad i **SIMS.net** ac **Outlook** fod yn unol â pholisi Rheolaeth Cyfrineiriau ar gyfer staff Cyngor Gwynedd.

(iii) Bydd y cyfrineiriau a ddefnyddir gan athrawon a staff eraill i gael mynediad at data **cwricwlaidd** yn cael cylch-bywyd penagored. Felly, ni fydd rhaid newid y cyfrineiriau yma yn rheolaidd, onibai bod amheuaeth am gyfrinachedd y cyfrinair.

(iv) Bydd y cyfrineiriau a ddefnyddir gan ddisgyblion i gael mynediad at data **cwricwlaidd** yn cael cylch-bywyd penagored. Felly, ni fydd rhaid newid y cyfrineiriau yma yn rheolaidd, onibai bod y disgybl yn amau cyfrinachedd y cyfrinair.

(v) Bydd y cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at **offer rhwydweithiol** yn cael cylch-bywyd penagored. Felly, ni fydd rhaid newid y cyfrineiriau yma yn rheolaidd, onibai bod amheuaeth am gyfrinachedd.

AIL-DDEFNYDDIO CYFRINEIRIAU

(i) Gellir ail-ddefnyddio'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at data **gweinyddol / rheolaethol,** mewn cylch o bedwar (4) cyfrinair. Felly, bydd angen cyfrinair newydd am y tri tro cyntaf, ac yna gellir ail-ddefnyddio'r cyfrinair cyntaf wedyn. Diffinir 'newydd' i gynnwys o leiaf 50% o lythrennau / rhifau gwahanol i'r cyfrineiriau eraill.

(ii) Gellir ail-ddefnyddio cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad i **SIMS.net** ac **Outlook** yn unol â pholisi Rheolaeth Cyfrineiriau ar gyfer staff Cyngor Gwynedd.

(iii) Ni fydd cylch ail-ddefnyddio ar gyfer cyfrineiriau a ddefnyddir gan athrawon a staff eraill i gael mynediad at data **cwricwlaidd**.

(iv) Ni fydd cylch ail-ddefnyddio ar gyfer cyfrineiriau a ddefnyddir gan ddisgyblion i gael mynediad at data **cwricwlaidd**.

(v) Ni fydd cylch ail-ddefnyddio ar gyfer cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at **offer rhwydweithiol**.

DIOGELU CYFRINEIRIAU AC ARFER DDA

- Dylid ystyried cyfrineiriau fel gwybodaeth gyfrinachol. Ni ddylai person roi, rannu, dweud neu awgrymu eu cyfrinair i berson arall.
- Ni ddylai aelod o'r ysgol, ar unrhyw achlysur, ofyn beth yw cyfrinair person arall, onibai bod y cais yna yn dod gan y Pennaeth neu aelod o staff sy'n cefnogi technoleg yr ysgol (h.y aelod o staff CYNNAL).
- Ni ddylid rhannu cyfrineiriau yn electronaidd dros y rhyngrwyd na thrwy ebost agored. Gellir defnyddio cyfrineiriau i gael mynediad o bell (e.e. i gael cefnogaeth gan asiantaethau allanol) drwy gysylltiadau VPN yr ysgol, neu drwy wefannau a ddiogelir gan drwyddedau SSL.
- Ni ddylid cadw cofnod electronaidd anniogel o gyfrineiriau, unai ar bapur neu'n electronaidd. Os oes angen cadw cofnod o gyfrineiriau, dylid gwneud hynny mewn dull hollol ddiogel, sydd wedi'i reoli (ee yn *safe* yr ysgol) neu ar ddisg galed wedi'i amgrymtio.
- Ni ddylid defnyddio'r opsiwn *Remember Password* a gynigir ar rai rhaglenni / gwefannau.
- Ni ddylai'r cyfrineiriau a ddefnyddir i gael mynediad at systemau'r ysgol gael eu defnyddio gan unigolion i gael mynediad i gyfrifon personnol y tu allan i'r ysgol. Dylid defnyddio cyfrinair gwahanol ar gyfer pob system, rhaglen neu fynediad sydd ei angen (os yw hyn yn bosibl) . Mae defnyddio yr un cyfrinair ar gyfer pob mynediad yn annerbyniol.
- Pe bai unigolyn yn gwybod neu'n amau bod person arall yn gwybod / efallai yn gwybod beth yw ei gyfrinair, dylai adrodd hyn Pennaeth neu dechnegydd yr ysgol yn syth, fel bo trefniadau yn cael eu gwneud i newid y manylion.
- Tra bo'r ysgol yn tanysgrifio i wasanaeth cefnogol CYNNAL, bydd y cwmni yn cymryd cyfrifoldeb am ddefnyddio a gwarchod cyfrinachedd cyfrineiriau systemau'r ysgol yn unol â'r polisi hwn.

CYFRINEIRAU YSGOLION CYNRADD GWYNEDD

System	Hyd y Cyfrinair	Cyfansoddiad	Cylch-bywyd	Ail-ddefnyddio
Cyfrifiaduron Swyddfa / Rheolaethol	8 neu fwy	Llythrennau Bach + LLYTHRENNAU MAWR + Rhifau (**4r7ThaWu**)	12 mis	bob 4 cyfrinair
Cyfrifiaduron Dosbarth - athrawon / staff	6 neu fwy	Llythrennau Bach neu LLYTHRENNAU MAWR + Rhifau (**pra5he**)	penagored	penagored
Rhaglen SIMS.net / Outlook	*I'w bennu gan Bolisi Rheolaeth Cyfrineiriau Staff Cyngor Gwynedd*			
Cyfrifiaduron Dosbarth - disgyblion	opsiynnol	unrhyw gyfuniad (os o gwbl)	penagored	penagored
Offer Rhwydwaith	8 neu fwy	Llythrennau Bach + LLYTHRENNAU MAWR + Rhifau (**3hahErU8**)	penagored	penagored